| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **24 Mehefin 2019** |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol Ysgolion Blwyddyn Gyllidol 2018/19** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Garem Jackson<br>Pennaeth Addysg** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |

**1 <u>Cyfrifon Terfynol 2018/19</u>**

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2019 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2019 -

| | canran | 31/03/2018 | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2019 | canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 7.92% | £2,743,044 | -£262,007 | £2,481,037 | 7.08% |
| Dilynol | 13.05% | £425,372 | +£59,418 | £484,789 | 17.06% |
| Uwchradd | 2.80% | £893,695 | +£79,991 | £973,687 | 3.02% |
| Arbennig | -1.30% | -£43,633 | +£104,493 | £60,860 | 1.62% |
| **Cyfanswm** | **5.49%** | **£4,018,478** | **-£18,105** | **£4,000,373** | **5.42%** |

1.3 Yn gyffredinol, mae balansau holl ysgolion Gwynedd wedi aros yn £4.0m cyfateb i 5.42% o'u dyraniad terfynol.

1.4 Mae gan 7 ysgol ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2018/19 gwerth -£207,106 o'i gymharu gydag 6 ar ddiwedd 2017/18 gwerth -£306,394.

- 4 Ysgol Gynradd gyda chyfanswm diffyg -£35,271 (amrywio rhwng -£1,090 a -£28,084)
- 2 Ysgol Uwchradd gyda chyfanswm diffyg -£159,374 (-£8,233 a -£151,140)
- 1 Ysgol Arbennig gyda diffyg -£12,461

1.5 Mae cyfanswm y balansau sydd dros 5% wedi lleihau o £1,838,398 (67 ysgol) ar 31/03/2018 i £1,736,732 (67 ysgol) ar 31/03/2019.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Dilynol, Uwchradd ac Arbennig.

2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd.

2.3 Mae colofn 'D' (melyn) ar atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon –

- 15 ysgol gynradd (amrywio rhwng £1,127 a £66,428 uwchben y trothwy)
- 1 ysgol ddilynol (£384,789 uwchben y trothwy)
- 4 ysgol uwchradd (amrywio rhwng £40,776 a £242,722 uwchben y trothwy)

## 3. Casgliad

3.1 Yn Hydref 2018, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru datganiad ystadegol blynyddol ar balansau ysgolion ar gyfer 31 Mawrth 2018, gyda'r crynodeb o'r pwyntiau allweddol ar gychwyn y ddogfen yn cynnwys "***….Roedd gan Wynedd y lefel uchaf o gronfeydd wrth gefn fesul disgybl….***"

3.2 Rhagwelir bydd datganiad nesaf Llywodraeth Cymru ar gyfer balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2019 yn parhau i ddangos balansau ysgolion Gwynedd fel yr uchaf yng Nghymru.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**